Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV41
Ymateb gan Llenyddiaeth Cymru / Response from Literature Wales

*(English below)*

**Ymateb Llenyddiaeth Cymru**

**i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru: Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon**

**Llenyddiaeth Cymru**

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw creu gwlad lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.

Rydym yn elusen gofrestredig, ac rydym yn gweithio i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru. Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru. Mae gennym swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd. Ein noddwr yw **Syr Philip Pullman**.

Rydym yn hwyluso, yn ariannu ac yn darparu rhaglen lenyddol yn uniongyrchol ledled Cymru. Mae ein holl weithgareddau wedi'u strwythuro yn dair Colofn Weithgaredd. Bydd canolbwyntio ar y tri maes hwn yn ein helpu i sicrhau bod gan ein holl waith gysylltiad clir â'n cenhadaeth, ac yn ein galluogi i ddefnyddio ein hadnoddau mor effeithiol â phosib:

**Cyfranogi** – ysbrydoli rhai o'r unigolion a'r cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf drwy eu galluogi i gyfranogi mewn llenyddiaeth.

**Datblygu Awduron** – datblygu potensial creadigol a phroffesiynol egin awduron.

**Diwylliant Llenyddol Cymru** – dathlu'n hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru.

Mae'r colofnau i gyd yn gorgyffwrdd, a bydd llawer o'n gwaith yn llifo o un i'r llall. Ni fydd y prosiectau'n cael eu datblygu ar wahân, byddant yn gwella ac yn ategu ei gilydd, gyda datblygiad a dilyniant eglur yn ystod y tair blynedd.

**Ein Blaenoriaethau**

Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a gweddnewid bywydau, a'r angen i ganolbwyntio ein gweithgareddau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf, rydym wedi nodi tair Blaenoriaeth Dactegol a fydd yn berthnasol i bob un o'n Colofnau Gweithgaredd: Nid mathau o weithgaredd yw'r rhain, ond blaenoriaethau thematig a fydd i'w gweld ym mhopeth rydyn ni'n ei gyflawni, ac yn ein gwaith partneriaeth a hwyluso:

**Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** – drwy sicrhau cynrychiolaeth deg ar draws ein gweithgareddau a'n strwythurau mewnol, byddwn yn darparu llwyfannau ac anogaeth i leisiau llenyddol sy'n cael eu tangynrychioli, a thrwy hynny'n meithrin diwylliant llenyddol sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes.

**Iechyd a Llesiant** – drwy gefnogi a hyrwyddo'r gwahanol ffyrdd y gall llenyddiaeth gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant y genedl, byddwn yn gwella bywydau pobl Cymru.

**Plant a Phobl Ifanc** – drwy gynyddu'r cyfleoedd i fwynhau ac ymwneud ag ysgrifennu creadigol a darllen er pleser, byddwn yn cyfrannu'n sylweddol at wella bywydau a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV41
Ymateb gan Llenyddiaeth Cymru / Response from Literature Wales

1. **Beth fu effaith uniongyrchol Covid-19 ar y sector?**

Mae pob sefydliad celfyddydol, ac yn bwysicaf oll artistiaid llawrydd, gan gynnwys awduron, wedi profi effaith andwyol y pandemig, a rhai ohonynt yn syth ac mewn modd difrifol iawn, gan golli pob contract ac archeb dros nos fwy neu lai. Mae cau lleoliadau, ysgolion, siopau llyfrau ac ati wedi golygu bod gwaith cyflawni prosiectau wedi dod i ben yn gyfan gwbl yn syth, yn enwedig yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig. Mae llawer o awduron wedi cael eu gadael heb ddim ffynhonnell incwm (e.e. o ddarparu gweithdai, cynnal digwyddiadau neu hwyluso hyfforddiant), ac mae awduron llawrydd sydd heb swydd reolaidd wedi teimlo'r effaith yn arbennig o wael.

Mae Covid-19 wedi effeithio ar bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn anghymesurol o uchel. Ar ben hynny, mae marwolaeth George Floyd a'r gefnogaeth fyd-eang i'r ymgyrch Black Lives Matter wedi amlygu materion yn ymwneud â hiliaeth sefydliadol a strwythurol, gan gynnwys o fewn y celfyddydau yng Nghymru. Mae nifer o unigolion a sefydliadau diwylliannol wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau anodd yn ystod yr wythnosau diwethaf ac mae Llenyddiaeth Cymru, fel nifer eraill, yn awyddus iawn i weld newidiadau sylfaenol ac rydym yn ymroddi i daclo hyn fel blaenoriaeth.

Yn achos Llenyddiaeth Cymru, gyda Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn cau, mae colli ffynhonnell incwm sylweddol drwy gyrsiau ysgrifennu a llogi preifat wedi arwain at golled ariannol sylweddol, sy'n parhau i gronni. Rydym yn cynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ar hyn o bryd, ac mae'r sefyllfa fwyaf tebygol wedi'i nodi isod er mwyn dangos y goblygiadau ariannol:

**Amgylchiadau**

- Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn aros ar gau, a chyrsiau wedi'u canslo tan fis Ionawr 2021, ond gyda phosibilrwydd o allu ei llogi'n breifat o fis Hydref 2020 ymlaen.
- Llai o bobl yn mynychu cyrsiau ac yn llogi'n breifat ar ôl ailagor gan nad yw cyfranogwyr yn gallu fforddio llefydd ar ôl colli incwm.

**Sefyllfa ariannol o ganlyniad**

- Gyda chyfyngiadau ar wariant, Tŷ Newydd yn ailagor i'w logi ym mis Hydref, ac arbedion eraill yn gadael **gwarged o oddeutu £53,000**.
- Mae gan Lenyddiaeth Cymru ddigon o gronfeydd wrth gefn i reoli gwarged ar y lefel hon fel sefyllfa un tro, os caiff grant craidd Cyngor Celfyddydau Cymru ei anrhydeddu'n llawn ac fel y contractiwyd, ac os na cheir toriadau yn ystod y flwyddyn.

2. **Pa mor effeithiol y mae'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrff hyd braich wedi mynd i'r afael ag anghenion y sector?**

Mae'r gefnogaeth a gynigiwyd yn hanfodol ac yn angenrheidiol, a byddai llawer o sefydliadau wedi dymchwel hebddi. Yr un a ddefnyddiwyd fwyaf yw'r Cynllun Cadw Swyddi, ac mae'r rhan fwyaf o sefydliadau celfyddydol wedi ei ddefnyddio. Mae hyn yn golygu na chollwyd llawer o swyddi yn y maes celfyddydol yng Nghymru hyd yma, ac mae angen y gefnogaeth ariannol hon wrth i

gyfyngiadau symud y Llywodraeth barhau, ac wrth i ysgolion, canolfannau, theatrau, canolfannau celfyddydau a siopau llyfrau aros ar gau.

Yn ogystal, mae'r cyllid brys a ddarparwyd i'r sector gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn achubiaeth, ac mae wedi cael ymateb cadarnhaol gan y sector. Gwnaed penderfyniadau'n gyflym, a rhoddwyd cefnogaeth ariannol yn syth, yn enwedig i unigolion. Yn ogystal, croesawyd penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ohirio Adolygiad Buddsoddi 2020, a galluogodd hyn sefydliadau i flaenoriaethu eu hymateb i COVID-19 ar adeg o argyfwng difrifol.

Cytunodd Llenyddiaeth Cymru gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ddechrau mis Ebrill i roi 50% o'r cyllid loteri a ddynodwyd i ni ar gyfer 2020-2021 yn ôl i Gronfa Gwytnwch y Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru mewn ymateb i argyfwng COVID-19. Roedden ni'n un o sawl sefydliad a gyfrannodd at y pecyn cefnogaeth ehangach hwn, sy'n cynnwys Cronfa Ymateb Brys i Unigolion ar gyfer unigolion creadigol llawrydd, gan gynnwys awduron, sy'n profi'r angen mwyaf am gymorth ariannol oherwydd pandemig COVID-19. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Ers mis Ebrill 2020, mae Llenyddiaeth Cymru wedi cyhoeddi dau gylch o gyllid ar gyfer awduron llawrydd i lunio a chreu prosiectau a chynnwys digidol gwreiddiol i gynulleidfaoedd. Cynigiwyd yr ail alwad mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru, ac roedd yn canolbwyntio'n benodol ar wella iechyd a lles cymunedau Cymru. Nod y galwadau hyn oedd cynnig gwaith cyflogedig i'r awduron llawrydd hynny a oedd wedi profi gostyngiad yn eu gwaith a'u gwaith comisiwn yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn ogystal, bydd y cynnwys a gynlluniwyd yn cyfrannu at welliannau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pendant yn unol â'n Canlyniadau Sefydliadol drwy ddiddanu, ysbrydoli ac addysgu egin-awduron a chyfranogwyr ledled Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am waith a ffocws newydd Llenyddiaeth Cymru yma.

3. **Beth fydd effeithiau hirdymor tebygol Covid-19 ar y sector, a pha gefnogaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r rheini?**

Yn ariannol, mae'n amlwg bod y sector celfyddydol ehangach a'r sector llenyddol mewn perygl, ac mae'n bosib y bydd hi'n amhosib dychwelyd neu adfer yn ôl i lefelau cyn-COVID. Bydd llawer yn ddibynnol ar bolisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, lefelau cyllido a'r pecynnau cefnogaeth fydd ar gael.

Hyd yn oed ar ôl i ganolfannau allu ailagor, bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol yn golygu y bydd hi'n amhosib dychwelyd i lefelau cyn-COVID am gryn amser, blynyddoedd o bosib. Mae'n anodd rhagweld ar hyn o bryd pa mor bellgyrhaeddol fydd yr effeithiau hyn.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i Lywodraethau gadw llygad barcud ar yr heriau sy'n wynebu'r diwydiannau Celfyddydol a Diwylliannol, a buddsoddi'n briodol yn eu goroesiad er mwyn diogelu eu dyfodol. Mae cyfle i ailarchwilio'r model ariannu presennol ar gyfer y celfyddydau, ac edrych ar wledydd eraill sy'n addasu'n well i rai o'r heriau hyn, yn enwedig y rhai lle mae buddsoddiad cyhoeddus sylweddol yn y celfyddydau yn sicrhau siawns uwch o oroesi ar gyfer sefydliadau celfyddydol ac artistiaid unigol.

Yn ogystal, er bod gallu'r sector Celfyddydol a Diwylliannol i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i gymunedau ledled Cymru wedi'i gyfyngu yn ystod cyfyngiadau symud presennol y Llywodraeth,

gyda'r gefnogaeth gywir, mae'n bosib y gallai'r sector fod o gymorth sylweddol yn cefnogi ystod o fentrau adfer. Waeth beth yw'r ffurf ar gelfyddyd, mae gan y sector allu i ysbrydoli a grymuso rhai o'r unigolion a'r cymunedau mwyaf bregus ac sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf, drwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol. Dylai diwylliant fod yn ganolog i broses adnewyddu Cymru, ac mae'n ffurfio elfen allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er efallai nad yw'r sector yn y sefyllfa orau i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol frys i gymunedau ledled Cymru yn ystod y cyfyngiadau symud presennol, gyda'r gefnogaeth gywir, mae'n bosib y gallem gael effaith sylweddol ar helpu yn ystod y cyfnod adfer. Er enghraifft, gall ein sector ddarparu llwyfannau angenrheidiol i bobl ifanc rannu eu profiadau mewn gofodau diogel, gall ddarparu mentrau creadigol i helpu i leihau teimladau o unigedd mewn cymunedau, neu guradu murluniau i annog ymatebion artistig i'r cyfnod presennol.

Hoffem hefyd adleisio rhai o'r awgrymiadau ymarferol a wnaed gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys:

- ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cymhorthdal Incwm i Bobl Hunangyflogedig am gyfnod mor hir ag sydd ei angen ar y sectorau sydd angen amser i agor ac ailadeiladu eu busnesau
- galluogi rhoi gweithwyr ar gynllun ffyrlo ar sail rhan-amser er mwyn caniatáu i sefydliadau weithio lle bo'n bosib
- adolygu'r Cymhorthdal Incwm i Bobl Hunangyflogedig i sicrhau nad oes gweithwyr llawrydd yn cwympo drwy fylchau cefnogaeth y llywodraeth
- egluro beth yw cymhwyster ymddiriedolaethau diwylliant a hamdden o ran cael cyllid gan y Llywodraeth
- ymestyn mynediad at gynlluniau rhyddhad ardrethu busnes Awdurdodau Lleol yng Nghymru i bob rhan o'r diwydiannau creadigol, nid yn unig y rhai ym maes manwerthu, lletygarwch a hamdden
- siapio Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig i ddarparu cynllun cyllid adfer busnes â ffocws, wedi'i gynllunio i ysgogi datblygiad ac arloesedd busnesau ar draws y diwydiannau celfyddydol a chreadigol
- sicrhau bod cyllid yn parhau i fod ar gael i sefydliadau sy'n profi problemau llif arian ac sy'n wynebu costau rhent masnachol sylweddol
- datblygu protocol "gofodau diogel" i helpu'r sector i ddychwelyd yn ôl i fusnes

**4. Pa wersi y gellir eu dysgu o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, cyrff hyd braich a'r sector wedi ymdrin â Covid-19?**

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn araf yn ymateb, a chollwyd amser gwerthfawr ar ddechrau'r pandemig. Bu i gyngor llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth, a oedd yn datgan y dylai pobl osgoi mynd i ganolfannau cyn iddynt gau'r canolfannau hynny, beri trafferthion mawr, ac fe gostiodd hyn lawer o amser ac arian.

Roedd cyhoeddiadau Cyngor Celfyddydau Cymru am becynnau cefnogaeth i'r sector yn ystyrlon, yn glir ac yn briodol. Yn fwy cyffredinol, p'un ai yn y sector celfyddydol neu yn y gymdeithas yn ehangach, nawr yw'r adeg ar gyfer cydweithredu gwell yn fyd-eang, dysgu gan wledydd eraill, a bod yn hael ac yn agored wrth rannu gwybodaeth ac adnoddau. Mae dull mwy gofalus Llywodraeth Cymru o leddfu'r cyfyngiadau symud hefyd wedi'i groesawu gan lawer, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed a phobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig, sy'n rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd pwysig ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.

5. **Sut mae modd i'r sector esblygu ar ôl Covid-19, a sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi arloesedd o'r fath i ymdrin â heriau yn y dyfodol?**

Dylai'r diwydiannau celfyddydol a chreadigol fod wrth wraidd polisi'r llywodraeth i adfywio ac ailfywiogi yn y byd newydd ôl-Covid-19. Ar adeg o argyfwng a chaledi, dylai mynediad at y celfyddydau fod yn ganolog i bolisi'r llywodraeth. Ond mae'n glir mai dim ond gyda buddsoddiad parhaus gan y llywodraeth ac adnoddau ariannol digonol y gall y celfyddydau esblygu, sy'n bwysicach nawr nag erioed.

Mae hwn yn argyfwng i'r sector, sy'n dod â heriau enfawr, ond hefyd cyfleoedd enfawr. Yn fwyaf amlwg, mae angen i'r 'NEWYDD' (sut bynnag bydd hynny'n edrych) fynd i'r afael ag:

- Ymrwymiad ac atebolrwydd gwirioneddol i gyflawni targedau Amrywiaeth a Chydraddoldeb.
- Gweithredu newid, nid addewidion gwag.
- Gweithio gydag artistiaid Duon ac Anabl a'u cynnwys ar bob lefel o waith llunio polisi.
- Cynnwys lleisiau a chymunedau newydd, yn enwedig y rhai sydd heb gael eu clywed hyd yma.
- Cyflwyno newidiadau gwirioneddol a mesuradwy i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Dylai'r prif egwyddorion ganolbwyntio ar fod yn agored, cydweithredu, ac osgoi diffynnaeth.